OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2003 Rhif 946 (Cy.127)

ANIFEILIAID, CYMRU

IECHYD ANIFEILIAID

Gorchymyn Adnabod a Symud Defaid a Geifr (Mesurau Dros Dro) (Cymru) (Rhif 2) (Diwygio) (Rhif 2) 2003

Wedi'i wneud	- -	*26 Mawrth 2003*
Yn dod i rym	- -	*31 Mawrth 2003*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru a'r Ysgrifennydd Gwladol, a hwythau'n gweithredu ar y cyd drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adrannau 1 ac 8(1) o Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 1981(**1**) yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

Enw, cymhwyso a chychwyn

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Adnabod a Symud Defaid a Geifr (Mesurau Dros Dro) (Cymru) (Rhif 2) (Diwygio) (Rhif 2) 2003; mae'n gymwys i Gymru a daw i rym ar 31 Mawrth 2003.

Dehongli

2. Yn y Gorchymyn hwn, ystyr "y Prif Orchymyn" yw Gorchymyn Adnabod a Symud Defaid a Geifr (Mesurau Dros Dro) (Cymru) (Rhif 2) 2002(**2**).

Diwygio erthygl 1

3. Yn erthygl 1(2) o'r Prif Orchymyn rhoddir y geiriau "1 Awst 2003" yn lle "1 Ebrill 2003".

Diwygio erthygl 7

4. Yn lle is-baragraff (2)(a) o erthygl 7 o'r Prif Orchymyn, rhoddir yr is-baragraff canlynol —

(**1**) 1981 p.22. Trosglwyddwyd swyddogaethau a roddwyd o dan Ddeddf 1981 i "the Ministers" (yn ôl y diffiniad yn adran 86 o'r Ddeddf honno) i'r graddau eu bod yn arferadwy gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru mewn cysylltiad â Chymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S.1999/672). Trosglwyddwyd swyddogaethau ar y cyd "the Ministers" a oedd yn arferadwy gan Ysgrifennydd Gwladol yr Alban mewn cysylltiad â Chymru i'r Gweinidog Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd gan Orchymyn Trosglwyddo Swyddogaethau (Amaethyddiaeth a Bwyd) 1999 (O.S. 1999/3141). Trosglwyddwyd pob swyddogaeth y Gweinidog Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd ymhellach wedyn i'r Ysgrifennydd Gwladol gan Orchymyn y Weinyddiaeth Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd (Diddymu) 2002 (O.S. 2002/794).

(**2**) O.S. 2002/2302 (Cy.227), fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2003/167 (Cy.27) .